CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod rhithwir o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd trwy cynhadledd Zoom, Nos Fawrth, 14 GORFFENNAF 2020.

1 PRESENNOL:
Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Ms Sharon Barton, Mrs Arianwen Owen, Mr Myfyr Davies, Mr Andrew Hughes, Mr Gwilym Looms, Mr Jeff Hughes, Mr Selwyn Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 YMDDIHEURIADAU:
Mr Gareth Evans, Mr Tim Owen.
Cynghorwyr Sirol Mr Bryan Owen & Mr Peter Rogers.

3 CROESO

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod cyntaf ers Mis Ionawr gan y Cadeirydd.

4 DATGAN DIDDORDEB

4.1 Nid oedd neb yn datgan diddordeb personol mewn unrhyw eitem rhestredig.

5 CYWIRO & CYMERADWYO COFNODION CYFARFODYDD.

5.1 Cyfarfod Misol 25/11/2019 – cynnig (AH), eilio (MD) ei bod yn rhai cywir.

6 Safle Maes Glas, Bethel – adroddiad y Clerc fod rhaid atal anfon unrhyw lythyr am y tro oherwydd y sefyllfa presennol ac i cadw'r mater mewn llaw..

7 Safle Parcio Stâd Morawelon, Malltraeth – dywedodd y Clerc ei fod wedi ymweld a'r safle a wedi tynnu lluniau o'r safle ac anfon lythyr i'r Pennaeth Adran Tai o'r Cyngor Sir ond heb dderbyn unrhyw ymateb hyd yn hyn. **Clerc i ddilyn y mater i fyny ac adrodd yn nôl i'r cyfarfod nesaf.**

8 Safle Parcio Stâd Pensiynwyr, Hermon – codwyd mater tebyg gan Cynghorydd Arianwen Owen fod angen sylw a gwella parcio tu allan i Tai y Pensiynwyr gan fod y sefyllfa yn peryg. **CYTUNWYD (AO/AH)** a gofyn i'r Clerc ychwanegu at pryderon cofnod 7 uchod.

Arwyddo.....

9 Hysbysfwrdd ger Stâd Pensiynwyr, Hermon - codwyd mater gan Cynghorydd Arianwen Owen fod angen sylw i'r Hysbysfwrdd – **cytunwyd yr aelodau (AO/DJ) a gofyn i'r Clerc cychwyn ymholidau ar gyfer prynu un newydd i'r safle.**

10 Ceisiadau Rhoddion;

Cytunwyd yr aelodau wneud y rhoddion canlynol;

10.1 Elusen Ambiwlans Awyr Cymru - £250.00 (s137/LGA1972)

10.2 Hosbis Dewi Sant (Ysbyty Penrhos) - £250.00 (s137/LGA1972)

10.3 Eglwys Llangadwaldr - £500 (s214(6)/1972)

10.4 Capel Bethel - £500.00 (s214(6)/1972)

11 Lwfans Cynghorywr:

11.1 Roedd y Clerc wedi dosbarthu ffurflen lwfans priodol i pob aelod o'r Cyngor yn dilyn penderfyniad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yn gofyn iddynt ei llenwi ac anfon yn nol ato cyn gynted a phoisb.

12 MATERION CYLLID;

Cytunwyd aelodau gyda rhestr llawn a derbyniadau y Cyngor & Cysoniad Datganiad y Banc hyd at 30 Mehefin 2020;

12.1	Un Llais Cymru – Aelodaeth	£165.00
12.2	Bodorgan Properties – Rhent Rhandiroedd 6 mis	£1,612.75
12.3	Dwr Cymru – Mynwent Trefdraeth	£17.10
12.4	J A Foulkes – Cyflog – Ebrill/Mehefin 2020	£772.80
12.5	HMRC – PAYE	£193.20
12.6	Zoom Video Communications – Cyfraniad	£48.00
12.7	I G Jones & Co – Archwiliad Mewnol	£198.00
DERBYNIADAU		
12.8	HMRC – Ad-Daliad TAW	£442.11
12.9	Cyngor Sir Ynys Mon – Rhandaliad Priseb Cyntaf 2020/21	£3,833.34
12.10	Cyfanswm Rent Rhandiroedd	£1,653.58

Arwyddo.....

12.11 ***Cysoni Mantolen Banc***:

CYSONI BANC / BANK RECONCILIATION	2020 / 2021
CYNGOR CYMUNED BODORGAN	£
Gweddill 1 Ebrill	£ 17,954.09
DERBYNIADAU	£ 5,929.03
Llai TALIADAU	-£ 3,006.85
GWEDDILL 30 Mehefin 2020.	£ 20,876.27
BALANS CYFRIFON BANC	2020 / 2021
Cyfrif Cyfredol	£ 20,876.27
Llai Siec Heb Cyflwyno	£ -
CYFANSWM	£ 20,876.27

13 Cyfrif Cadw:

Dywedodd y Clerc fod £14k o'r arian mewn llaw wedi ei glustnodi ar gyfer unrhyw datblygiad i'r Ganolfan ac fod ffurflen wedi ei lenwi er mwyn ceisio agor cyfrif cadw ers Mis Medi 2019 a dosbarthu'r ffigwr yma iddo. Er ei ymdrechion, dywedodd fod trafferthion gyda'r Banc yn parhau ond y bydd yn mynd ati unwaith eto yn yr wythnosau nesaf.

14 Bancio Ar Lein

Roedd aelodau yn agor i syniad y Clerc wneud ymholiadau gyda'r Banc o wneud taliadau ar lein yn y dyfodol agos oherwydd y sefyllfa sydd yn bodoli ac y bydd hyn yn achosi llai o anhawsterau.

15 Dogfen Arolwg Trefniadau Etholiadol ar gyfer Ynys Mon (Cynigion Drafft).

Roedd aelodau yn hapus awgrymu newid ac ail-enwi ward Bro Aberffraw yn Ward Santes Ddwynwen gan ei fod yn mwy addas i'r ardal yn ei gyfanrwydd. **Y Clerc i ymateb i'r ddogfen erbyn 14 Medi 2020 gyda argymelliad y Cyngor.**

Arwyddo.....

16 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

16.1 Cais Llawn - Addasu & Ehangu – Cae Caled, Bodorgan – HHP/2020/67 – **DIM SYLWADAU**.

16.2 Cais Llawn - Addasu & Ehangu – Cae Mawr, Bodorgan – HHP/2020/55 – **DIM SYLWADAU.**

16.3 Cais Llawn - Addasu & Ehangu – Penygroes, Trefdraeth, Bodorgan – HHP/2020/57 – **DIM SYLWADAU.**

16.4 Cais Llawn – Newid Defnydd Cwt Ci yn Stiwdio Cerddoriaeth & Ystafell Astudio – 35 High Street, Malltraeth, Bodorgan – FPL/2020/53 – **roedd sylwadau wedi ei wneud ynglyn a maint ac y datblygiad mewn AOHNE ac ei fod yn rhwystrol gyda aneddau cyfagos. Nid oedd y Cyngor yn ffafrio Stiwdio Cerddoriaeth gan nad oedd yr adeilad yn addas i'r fath datblygiad.**

16.5 Cais Llawn – Creu Mynedfa Newydd – Fair View, Malltraeth, Bodorgan – HHP/2020/124 – **DIM SYLWADAU.**

17 ADRODDIAD CANOLFAN BODORGAN.

Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Cadeirydd a trafodaeth agored i ddilyn:

17.1 Dywedodd y Cadeirydd fod helyntion y Grwp Newydd sydd wedi ei sefydlu er mwyn gwrthwynebu penderfyniad Pwyllgor y Ganolfan yn parhau ac roeddent hefyd yn herio penderfyniad Malltraeth Ymlaen Cyf i ddosbarthu'r rhan fwyaf o'r arian a oedd yn cael ei ddal i gyfrif banc y Ganolfan. Cadarnhaodd nad oedd cyfarfod gyda'r Cyngor Sir wedi digwydd ers Mis Chwefror oherwydd y Coronofeirws ac yn sgil trafodaethau nid oeddynt wedi anfon dogfennau yn cadarnhau hawliau prynu unigryw i'r Pwyllgor. Fodd bynnag roedd y Cyngor Sir wedi cyfaddef fod y brydles bresennol yn rhedeg ac yn dod i ben yn 2087.

18 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF - MIS MEDI (15/9/2020).

18.1 Clowyd y cyfarfod am 7:45yh.

CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol rhithwir o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd trwy cynhadledd Zoom, Nos Fawrth, 14 GORFFENNAF 2020.

1 PRESENNOL:
Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Ms Sharon Barton, Mrs Arianwen Owen, Mr Myfyr Davies, Mr Andrew Hughes, Mr Gwilym Looms, Mr Jeff Hughes, Mr Selwyn Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 YMDDIHEURIADAU:
Mr Gareth Evans, Mr Tim Owen.
Cynghorwyr Sirol Mr Bryan Owen & Mr Peter Rogers.

3 DERBYN & CYMERADWYO CYFRIFON Y CYNGOR 2019-2020.

Cafwyd adroddiad cryno o daliadau a derbyniadau y flwyddyn gan y Clerc gan gynnwys y gwahaniaethau amrywiol mewn incwm a gwariant. Dywedodd fod gan y Cyngor £18,000 yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn ond fod £12,000 wedi ei glustnodi ar gyfer unrhyw datblygiad i'r Ganolfan ac fod angen odditeu £3-£4k ar gyfer bil archwiliad allanol heb ei cwblhau sydd yn parhau. Gofynwyd aelodau a oedd posib ystyried gosod Peiriant Difibriliwr (1 yn Hermon a llal yn Mhethel). Cytunwyd ac fe penderfynwyd y dylai Pwyllgor Cyllid gosod cyllideb ar gyfer y gwariant yma y flwyddyn nesaf. **Cynnig (MD) ac eiliwyd (AH) i dderbyn y cyfrifon ac fe cymeradwyd yn unfrydol.**

4 DERBYN & CYMERADWYO ADRODDIAD DATGANIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR 2019 – 2020.

Roedd y Clerc wedi anfon copi o'r Ffurflen Blynyddol a Datganiad Llywodraethu i sylw pob aelod cyn y cyfarfod gyda sylwadau yr Archwilydd Mewnol. Ymfalchiodd i ddweud nad oedd gan yr Archwilydd Mewnol unrhyw ganfyddiadau nac argymellion i adrodd yn nol eleni. **Cynnig (DJ) ac eiliwyd (GL) i dderbyn y cyfrifon ac fe cymeradwyd yn unfrydol.**

Arwyddo…….

5 ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER 2020 – 2021

Ail etholwyd Cynghorydd Dafydd Jones yn unfrydol (MD/AH)

6 ETHOL IS-CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER 2020 – 2021

Ail etholwyd Cynghorydd Tim Owen yn unfrydol (DJ/MD).

7 ETHOL IS BWYLLGOR CYLLID AR GYFER 2020 – 2021

Etholwyd Cynghorwyr Dafydd Jones, Tim Owen, Myfyr Davies, Andrew Hughes a Arianwen Owen (JH/DJ).

8 CAU Y CYFARFOD - Clowyd y cyfarfod am 8:00yh.

Arwyddo…….